



Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Y Drefn Apelio Gyfunol

Cyflwyniad

1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r trefnau ar gyfer ystyried apêl a wnaed gan ddarparwr addysg uwch (y cyfeirir ato fel 'darparwr' o hyn ymlaen) yn erbyn beirniadaethau tîm adolygu QAA yn dilyn adolygiad a wnaed o dan unrhyw rai o'r dulliau adolygu canlynol:

- Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol (Adolygiad GorA, neu EOR yn Saesneg)
- Adolygiad Gwella Ansawdd Addysg Drydyddol (Adolygiad GAAD, neu TQER yn Saesneg)
- Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru (Adolygiad APC, neu GQRW yn Saesneg)
- Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA, neu QER yn Saesneg)
- Achrediad Ansawdd Rhyngwladol (Achrediad ARh, neu IQA yn Saesneg) / Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol (Adolygiad ARh, neu IPA yn Saesneg)
- Achrediad Rhyngwladol i Raglenni (Achrediad RhR, neu IPA yn Saesneg)

2 Mae'r drefn sydd wedi ei hamlinellu yn y ddogfen hon yn berthnasol i'r holl adolygiadau lle cadarnhawyd y beirniadaethau ar neu ar ôl **1 Hydref 2022**, ac eithrio'r adolygiadau a wnaed o dan gontract y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Diffiniadau

Adolygwr Annibynnol: Mae hwn yn adolygwr sydd wedi ei hyfforddi yn y dull o wneud yr adolygiad sydd dan sylw yn yr apêl, nid yw wedi ymwneud o gwbl â'r broses o wneud yr adolygiad hwn a does dim gwrthdaro buddiannau rhyngddi â'r darparwr penodol.

Cadeirydd y Panel Apêl: Bydd Cadeirydd y Panel Apêl yn cadeirio panelau apêl QAA ymhob un o'i dulliau, ac yn arwain y drafodaeth am gyflwyniad apêl.

Cynghorydd Arbenigol: Mae hwn yn Rheolwr Adolygiad ac yn aelod o staff QAA nad yw wedi ymwneud o gwbl â'r adolygiad sydd dan sylw yn yr apêl, ond sy'n gallu rhoi cyngor arbenigol am y dull adolygu perthnasol a'r broses adolygu berthnasol.

Panel Apêl: Yr Adolygwyr Annibynnol yn cyfarfod mewn rhith-gyfarfod i drafod yr apêl.

Gwneud apêl

3 Mae QAA yn gwahaniaethu rhwng cwynion ac apeliadau. Yn ein barn ni, pan fydd rhywun yn cwyno maent yn mynegi anfodlonrwydd gyda'r gwasanaethau a ddarparwn neu bethau a wnawn. Mae gan QAA [drefn gwyno](#) ar wahân. Mae apeliadau'n heriau penodol i benderfyniadau penodol a wneir o ganlyniad i adolygiad o dan un o'r dulliau adolygu QAA sydd wedi eu rhestru uchod, a chânt eu trin drwy'r drefn hon.

4 Pan fydd apêl yn ymwneud â materion sy'n perthyn yn gyflawn i'r drefn gwyno, gall Tîm Llywodraethu QAA, yr Adolygwr Annibynnol neu'r Panel Apêl gyfeirio'r materion hynny i gael eu hystyried o dan y drefn gwyno.

5 Pan gyflwynir cwyn ynghyd ag apêl, bydd y broses o ystyried y gŵyn yn cael ei gohirio nes bydd y weithdrefn ar gyfer ymdrin â'r apêl wedi ei chwblhau, fel nad yw'r broses o ymchwilio'r gŵyn yn rhagfarnu'r broses o ymdrin â'r apêl, ac fel na cheir yr argraff bod hyn yn digwydd. Dan amgylchiadau eithriadol, gall y Cyfarwyddwr Gweithredol Materion Corfforaethol amrywio hyn os bernir ei bod hi'n angenrheidiol ystyried y gŵyn yn gyntaf.

6 Rhaid i bennaeth y darparwr dan sylw gyflwyno'r apêl gan ddefnyddio'r Ffurflen Gyflwyno Apêl o dan Drefn Apelio Gyfunol QAA (gwelwch Atodiad 3), a'i hanfon at y Pennaeth Llywodraethu. Nid yw apeliadau ar lafar yn dderbyniol. Dylid anfon y ffurflenni cyflawn at governance@qaa.ac.uk. Mae apeliadau a gyflwynir mewn unrhyw fformat arall heblaw hwnnw a geir yn y Ffurflen Gyflwyno Apêl o dan Drefn Apelio Gyfunol QAA yn annerbyniol, a byddwn yn eu dychwelyd.

7 Mae'n rhaid cyflwyno apêl o fewn 10 diwrnod gwaith wedi i'r darparwr dderbyn y fersiwn o adroddiad y tîm adolygu sydd wedi ei nodi yn Atodiad 1. Pan fydd y dyddiad cau ar gyfer derbyn yr apêl yn digwydd bod ar ddyddiad nad yw'n ddiwrnod gwaith, byddwn yn ei newid i'r diwrnod gwaith canlynol. Byddwn yn gwneud newidiadau hefyd i roi ystyriaeth i ddyddiadau cau QAA. Rhoddir cydnabyddiaeth o fewn tri diwrnod gwaith o'i derbyn fel arfer bod yr apêl honno wedi cael ei derbyn.

8 Rhaid i ddarparwr sy'n gwneud apêl enwebu person cyswllt i gysylltu ag QAA. Ni fydd QAA yn trafod yr apêl gydag unrhyw unigolyn heblaw pennaeth y darparwr neu'r person cyswllt enwebedig. Fel arfer, person cyswllt QAA fydd y Pennaeth Llywodraethu neu ei enwebai¹ a fydd yn rhoi gwybodaeth am gynnydd i'r darparwr yn rheolaidd. Ar ôl cyflwyno apêl, rhaid gwneud unrhyw gysylltiad yn ymwneud â'r mater hwn drwy'r Tîm Llywodraethu.

9 Fel arfer, bydd y drefn apelio wedi ei chwblhau o fewn 12 wythnos i dderbyn yr apêl. Efallai y bydd yn rhaid ymestyn y cyfnod hwn dan rai amgylchiadau. Ar ddechrau'r broses apelio, bydd y Tîm Llywodraethu'n hysbysu'r darparwr am amseriad tebygol y broses.

10 Gellir gwneud apêl ar yr amod fod beirniadaethau'r tîm adolygu'n rhai sydd wedi eu nodi yn Atodiad 2 (dan 'y beirniadaethau y gellir apelio yn eu herbyn').

11 Gellir gwneud apêl ar un, neu bob un, o'r seiliau a ganlyn:

a) Y Weithdrefn

Bod afreoleidd-dra trefniadol yn y ffordd y gweithredir yr adolygiad, a bod hwnnw'n bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd y penderfyniad neu'r penderfyniadau a wnaethpwyd. Esiamplau o hyd yw bod y tîm adolygu'n: methu â dilyn y camau gweithredu y cytunwyd amynt; gwneud penderfyniadau sy'n anghymesur; methu â chymryd gwybodaeth berthnasol i ystyriaeth neu'n cymryd gwybodaeth amherthnasol i ystyriaeth; neu'n mynd y tu hwnt i'w bwerau ei hun.

b) Deunydd newydd

Mae deunydd a oedd yn bodoli ar y pryd pan wnaeth y tîm adolygu ei benderfyniad, a fyddai, pe bai ar gael cyn i'r adolygiad gael ei gwblhau, wedi dylanwadu ar feirniadaeth(au) y tîm, ac y mae rheswm da yn y cyswllt hwn pam nad oedd ar gael i'r tîm adolygu.

¹ Yn y drefn yma, gallai'r holl gyfeiriadau at y Pennaeth Llywodraethu gynnwys unrhyw unigolyn a enwebwyd i weithredu ar ei ran.

12 Ni ystyrir fod y canlynol yn 'rhesymau da' dros fethu â darparu deunydd sy'n ofynnol o dan y sail 'Deunydd Newydd': honiad nad oedd y tîm adolygu wedi gofyn i weld y Deunydd Newydd yn benodol, a dim rheswm arall, neu honiad bod y cyfyngiad ar nifer y dogfennau y gellir eu llwytho wedi cyfyngu ar allu'r darparwr i gyflwyno'r Deunydd Newydd.

13 Dylai'r darparwr ddisgrifio'n glir ac yn gryno yn y Ffurflen Gyflwyno Apêl o dan Drefn Apelio Gyfunol QAA (gwelwch Atodiad 3) sut mae'n ystyried bod yr adolygiad yn wallus ar sail yr apêl sydd wedi ei disgrifio ym mharagraff 11. Trwy wneud hynny, dylai'r darparwr nodi'n glir beth yw'r diffygion honedig a arweiniodd at y feirniadaeth. Gallai'r darparwr gyflwyno tystiolaeth i atgyfnerthu ei honiad, ac mae'n rhaid iddo ganolbwyntio ar y rheswm penodol am yr apêl, gan gynnwys dim ond dogfennau ategol sy'n uniongyrchol berthnasol, a dylid eu labelu a chyfeirio atynt yn glir. Mae'n rhaid cyflwyno'r Ffurflen Gyflwyno Apêl o dan Drefn Apelio Gyfunol QAA gyflawn a'r holl dystiolaeth gysylltiedig erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno apeliadau. Cyfrifoldeb y darparwr yw sicrhau bod y Ffurflen Gyflwyno Apêl o dan Drefn Apelio Gyfunol QAA yn cael ei llenwi'n glir ac yn gryno a bod yr holl dystiolaeth berthnasol wedi ei darparu. Bydd QAA yn prosesu pob apêl yn y ffurf wreiddiol y cawsent eu cyflwyno ac ni fydd yn ceisio unrhyw eglurhad neu ehangiad.

Gwrthdaro buddiannau

14 Penodir yr Adolygwr Annibynnol, Cadeirydd y Panel Apêl, a'r Cynghorydd Arbenigol (paragraffau 17, 22 a 24 isod) o blith adolygwyr profiadol neu reolwyr adolygiad profiadol nad ydynt wedi ymwneud â'r adolygiad o gwbl sydd dan sylw yn yr apêl.

15 Mae gan QAA [weithdrefn gadarn ar gyfer osgoi gwrthdaro buddiannau](http://www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni/ein-trefn-reoli/polisiau-qaa)² sy'n berthnasol i unrhyw un sy'n ymwneud â gwaith i QAA.

² www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni/ein-trefn-reoli/polisiau-qaa

Ein trefn apelio

Wythnos 0

Y darparwr yn derbyn yr adroddiad. Bydd gan y darparwr ddeng niwrnod gwaith i roi gwybod i'r Tîm Llywodraethu am ei fwriad i gyflwyno apêl.



Wythnos 1

Y darparwr yn cyflwyno ei apêl. Bydd apeliadau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu cyfieithu a'u hystyried yn Saesneg. QAA yn penodi dau Adolygwr Annibynnol.



Wythnos 3

Yr Adolygwyr Annibynnol yn edrych ar yr apêl ac yn paratoi adroddiad.



Wythnos 5

Pob un o'r ddau Adolygwr Annibynnol yn gwrthod rhan o'r apêl.
Rhoddir gwybod i'r darparwr am ba rannau o'r apêl a wrthodwyd.

Pob un o'r ddau Adolygwr Annibynnol yn gwrthod yr apêl yn llwyr.
Ystyrir bod y broses apelio'n gyflawn, a chyhoeddir yr adroddiad.

Yr Adolygwyr Annibynnol yn cyfeirio rhan o'r apêl neu'r apêl gyfan at Banel Apêl.
Nid yw'r Adolygwyr Annibynnol yn cytuno ynglŷn â phob un o'r materion dan sylw.



Wythnosau 6 i 8

Y Tîm Llywodraethu'n galw Panel Apêl ynghyd sy'n cynnwys y ddau Adolygwr Annibynnol yn ogystal â thrydydd Adolygwr Annibynnol.



Wythnosau 8 i 12

Y Panel Apêl yn gwrthod yr apêl.

Y Panel Apêl yn cadarnhau bod yr apêl yn ddilys. Cyfarwyddir y tîm adolygu i newid yr adroddiad cyn ei gyhoeddi.



Ystyrir bod y broses apelio'n gyflawn, a chyhoeddir yr adroddiad. Cyfieithir yr adroddiad, os yw hyn yn berthnasol. Rhoddir gwybod am ganlyniad yr apêl i'r darparwr.

Rhoi ystyriaeth gychwynnol i apêl

16 Pan fydd yn derbyn apêl, bydd QAA yn ei chyfeirio i ddechrau at ddau Adolygwr Annibynnol i'w hystyried ar wahân.

17 Bydd yr Adolygwr Annibynnol yn ystyried y canlynol, ar wahân:

- adroddiad terfynol y tîm adolygu
- y Ffurflen Gyflwyno Apêl o dan Drefn Apelio Gyfunol QAA a gyflwynwyd gan y darparwr a'r dystiolaeth gysylltiedig
- ac unrhyw gyflwyniad a wnaed i'r tîm adolygu gan y darparwr ar ôl yr adroddiad drafft.

18 Gall yr Adolygwyr Annibynnol geisio cyngor gan Dîm Llywodraethu QAA ar sut i weithredu'r drefn yma.

19 Rhoddwyd hysbysiad cydymffurfio i QAA mewn perthynas â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â'n hysbysiad cydymffurfio, byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ystyried apeliadau. Gellir cyflwyno apeliadau yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Os bydd angen cyfieithu, bydd cyfle i'r darparwr adolygu'r cyfieithiad cyn ei roi i'r adolygwyr.

20 Gall yr Adolygwyr Annibynnol wrthod yr apêl, neu unrhyw ran ohoni, dim ond os bydden nhw'n penderfynu nad oes siawns realistig bod yr apêl, neu unrhyw ran ohoni, yn mynd i gael ei chadarnhau. Bydd yr Adolygwyr Annibynnol yn esbonio ei resymau am wrthod yr apêl neu unrhyw ran ohoni gan ddefnyddio templed safonol. Ymhob achos arall, bydd yr Adolygwyr Annibynnol yn cyfeirio'r apêl neu'r rhannau sy'n weddill ohoni at y Panel Apêl.

21 Pan fydd pob un o'r ddau Adolygwr Annibynnol yn gwrthod apêl neu unrhyw ran ohoni, hysbysir y darparwr mewn ysgrifen am y penderfyniad hwn a'r rhesymau am wrthod yr apêl neu'r rhannau perthnasol ohoni. Ni fydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad yr Adolygwr Annibynnol, nac i ofyn iddo gael ei adolygu.

Y Panel Apêl

22 Pan fydd yr Adolygwyr Annibynnol yn methu cytuno â'i gilydd neu pan fyddent wedi cyfeirio'r apêl at Banel Apêl, bydd y Tîm Llywodraethu'n galw Panel Apêl ynghyd i ystyried yr apêl. Bydd y Panel Apêl yn cynnwys y ddau Adolygwr Annibynnol gwreiddiol, yn ogystal â Chadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd Panel Apêl QAA.

23 Darperir cefnogaeth weinyddol, ysgrifenyddol a gweithdrefnol i'r Panel Apêl gan Swyddogion Llywodraethu QAA sydd heb gyfrannu mewn unrhyw ffordd i weithrediad y rhaglen adolygu nag unrhyw ymwneud blaenorol â'r adolygiad dan sylw yn yr apêl.

24 Bydd Cyngorydd Arbenigol ar gael i gynghori'r Panel Apêl ar weithrediad y dull adolygu perthnasol gan QAA. Bydd y Cyngorydd Arbenigol yn Rheolwr Adolygiad QAA profiadol sydd heb unrhyw ymwneud blaenorol gyda'r adolygiad penodol dan sylw. Ni fydd y Cyngorydd Arbenigol yn derbyn nac yn ystyried y dogfennau sy'n rhan o'r apêl ar unrhyw gam yn y broses, a dim ond pan ofynnir am hynny gan y Panel Apêl y bydd yn cynghori ar faterion gweithdrefnol.

25 Gall y Panel Apêl, ar unrhyw gam yn y broses, geisio cyngor gan y Tîm Llywodraethu ar sut i weithredu'r drefn yma, a gallent, yn eu tro, geisio cyngor cyfreithiol allanol, os ydynt yn ei ystyried yn angenrheidiol.

Ymateb i'r apêl

26 I helpu Panel Apêl gyda'i ystyriaethau, bydd y Tîm Llywodraethu, sy'n gweithredu ar ran y Panel Apêl, yn gofyn i'r Cydlynnydd Adolygiad, neu'r Rheolwr Adolygiad QAA sydd â chyfrifoldeb am yr adolygiad, ymateb i'r apêl. Bydd y Rheolwr Adolygiad QAA yn cydlyn ymateb ar ran y tîm adolygu, gan gynnwys sylwadau am unrhyw awgrymiad o ddiffyg gweithdrefnol yn y ffordd y gweithredir yr adolygiad, ac am unrhyw faterion eraill a godwyd yn yr apêl.

27 Bydd QAA yn rhoi'r ymateb a dderbynnir, yn unol â pharagraff 26, i'r darparwr o leiaf 10 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a osodir ar gyfer y Panel Apêl. Gallai'r darparwr roi sylwadau ysgrifenedig am yr ymateb hwnnw, a bydd y Panel Apêl yn ystyried y sylwadau ysgrifenedig hynny hefyd. Dylai'r Tîm Llywodraethu dderbyn ymateb y darparwr o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y dyddiad a osodir ar gyfer y Panel Apêl.

28 Gallai'r Panel Apêl, ar unrhyw gam yn y broses, ofyn i'r Tîm Llywodraethu gael rhagor o wybodaeth neu eglurhad gan y darparwr a/neu'r Rheolwr Adolygiad QAA. Darperir copi o unrhyw wybodaeth neu eglurhad o'r fath i'r ochr arall, a bydd ganddynt hwythau'r hawl i roi sylwadau.

Dogfennau ar gyfer y Panel Apêl

29 Bydd y dogfennau i'w hystyried gan y Panel Apêl yn cynnwys:

- y fersiwn drafft o adroddiad terfynol y tîm adolygu
- y Ffurflen Gyflwyno Apêl o dan Drefn Apelio Gyfunol QAA a gwblhawyd gan y darparwr
- crynodeb o'r rhannau hynny o'r apêl y mae'r Adolygwr Annibynnol wedi eu cyfeirio at y panel
- ymateb y tîm adolygu, fel y mae wedi ei ddisgrifio ym mharagraff 26
- unrhyw sylwadau a dderbynnir gan y darparwr am sylwadau'r tîm adolygu, fel y maent wedi eu darparu ym mharagraff 27.

30 Ni fydd y Panel Apêl yn ystyried unrhyw ddogfen nad yw'r darparwr yn gwybod amdani ac nad yw'r darparwr wedi ei derbyn cyn cyfarfod y Panel Apêl ar gyfer ystyried y dogfennau.

31 Bydd y Pennaeth Llywodraethu neu ei enwebai'n gweithredu fel ysgrifennydd i'r Panel Apêl.

32 Bydd y Panel Apêl fel arfer yn gwneud penderfyniad am apêl yng nghyfarfod y Panel, heb orfod derbyn unrhyw osodiadau eraill. Fodd bynnag, efallai y bydd y Panel Apêl, yn ôl ei ddewis ei hun yn unig, yn gofyn i'r Tîm Llywodraethu wahodd cynrychiolwyr uwch y darparwr ac/neu QAA i gyfarfod dan amgylchiadau eithriadol os bydd y Panel Apêl yn ystyried bod materion sydd angen eglurhad pellach. Dewis y Panel Apêl yn unig fydd y weithdrefn yn y cyfarfod. Ni fydd hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol mewn cyfarfod o'r fath. Ni fydd y Panel Apêl yn derbyn gosodiadau ar lafar o dan unrhyw amgylchiadau eraill.

Penderfyniadau'r Panel Apêl

33 Bydd y Panel Apêl yn canolbwyntio ar y broses a'r casgliadau a arweiniodd at y beirniadaethau y gellir apelio yn eu herbyn.

34 Bydd y Panel Apêl yn cadarnhau bod yr apêl yn ddilys os bydd yn casglu, o ystyried tebygolrwydd y ddwy ochr, bod:

- afreoleidd-dra trefniadol yn y ffordd y gweithredwyd yr adolygiad, i'r fath fodd nes ei fod yn bwrw amheuaeth ar ddilysrwydd y penderfyniadau a wnaethpwyd a/neu mae deunydd a oedd yn bodoli ar y pryd pan wnaeth y tîm adolygu ei benderfyniad, a fyddai, pe bai ar gael cyn i'r adolygiad gael ei gwblhau, wedi dylanwadu ar feirniadaethau'r tîm, ac y mae rheswm da yn y cyswllt hwn pam nad oedd ar gael i'r tîm adolygu.

35 Fel arall, bydd y Panel Apêl yn gwrthod yr apêl a bydd yn penderfynu cadarnhau beirniadaethau'r tîm adolygu.

36 Pan fydd y Panel Apêl yn cadarnhau bod yr apêl yn ddilys, gall wneud unrhyw un o'r canlynol:

- dirymu'r adolygiad yr effeithir arno (dim ond pan fydd y Panel Apêl yn penderfynu bod y rheswm dros gadarnhau'r apêl yn ddigon systemig a difrifol i fwrw amheuaeth ar ddilysrwydd yr adolygiad cyfan y dewisir yr opsiwn yma)
- dirymu unrhyw un o'r beirniadaethau yr effeithir arnynt, neu bob un ohonynt.

37 Pan fydd y Panel Apêl yn dirymu'r adolygiad yr effeithir arno, bydd tîm adolygu newydd yn gwneud adolygiad newydd, ar sail cyflwyniad newydd o dystiolaeth gan y darparwr.

38 Pan fydd y Panel Apêl yn dirymu un neu fwy o'r beirniadaethau yr effeithir arnynt, y Cyfarwyddwr Sicrhau Ansawdd sy'n gyfrifol am y tîm adolygu fydd yn penderfynu ar gwmpas unrhyw ail-adolygiad dilynol, gan ddilyn yr egwyddorion canlynol.

- Fel arfer, bydd beirniadaethau yr apelir yn eu herbyn yn llwyddiannus ar sail gweithdrefn yn achosi i dîm newydd adolygu tystiolaeth bresennol sy'n ymwneud â'r feirniadaeth honno.
- Fel arfer, bydd beirniadaethau yr apelir yn eu herbyn yn llwyddiannus ar sail deunydd newydd yn achosi i'r tîm adolygu presennol ailystyried y feirniadaeth a ddirymir, er mwyn rhoi ystyriaeth i'r deunydd newydd a gyflwynir yn yr apêl.
- Os apelir yn erbyn beirniadaeth yn llwyddiannus ar sail gweithdrefn ac ar sail deunydd newydd, bydd y camau cywiro sydd wedi eu disgrifio uchod ar gyfer apeladau llwyddiannus ar sail gweithdrefn hefyd yn berthnasol, heblaw bod y tîm newydd yn rhoi ystyriaeth hefyd i'r deunydd newydd a gyflwynir.

39 Bydd y Cyfarwyddwr yn rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a roddwyd gan y Panel Apêl, ond bydd yn pennu union rychwant a chwmpas yr ail-adolygiad mewn un neu fwy o'r meysydd beirniadaeth, er mwyn sicrhau y bydd yr ail-adolygiad yn angenrheidiol ac yn gymesur. Bydd y Cyfarwyddwr wedi ei dywys gan y rhestr o opsiynau uchod ond bydd yn cadw'r hawl i orchymyn bod tîm adolygu newydd yn gwneud adolygiad cwbl newydd, os bydd o'r farn y byddai hynny'n decach i'r darparwr. Mae penderfyniad y Cyfarwyddwr yn derfynol.

40 Bydd y Panel Apêl yn rhoi'r rhesymau am ei benderfyniad.

41 Mae penderfyniad y Panel Apêl yn derfynol. Ni fydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Panel Apêl, nac i ofyn iddo gael ei adolygu.

42 Bydd y Tîm Llywodraethu'n rhoi gwybod i bennaeth y darparwr neu'r person cyswllt enwebedig beth yw canlyniad ystyriaethau'r Panel Apêl, a hynny o fewn saith diwrnod gwaith i ddyddiad cyfarfod y Panel Apêl fel arfer.

43 Mae QAA wedi ei hymrwymo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib, ac i weithio mewn ffordd agored ac atebol. Mae hyn yn cynnwys ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i dderbyn adborth y mae'r broses apelio'n eu darparu. Cyfathrebir y sylwadau a geir i'r tîm adolygu a rhoddir adroddiad amdanynt i Fwrdd QAA.

44 Unwaith y bydd y darparwr wedi derbyn gwybodaeth am benderfyniad y Panel Apêl, bydd y drefn apelio wedi ei chwblhau.

Atodiad 1 - Y fersiwn o'r adroddiad a all fod yn sail i apêl

Y dull adolygu	Y fersiwn o'r adroddiad
Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol	Yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi
Adolygiad Gwella Ansawdd Addysg Drydyddol	Yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi, os rhoddir y beirniadaethau 'yn rhannol effeithiol' neu 'ddim yn effeithiol'
Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru	Yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi Ni fydd unrhyw beth sydd heb ei nodi yn y fersiwn drafft cyntaf yn dderbyniol mewn apêl yn erbyn yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi.
Adolygiad Gwella Ansawdd	Yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi Ni fydd unrhyw beth sydd heb ei nodi yn y fersiwn drafft cyntaf yn dderbyniol mewn apêl yn erbyn yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi.
Achrediad Ansawdd Rhyngwladol Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol Achrediad Rhyngwladol i Raglenni	Yr adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Atodiad 2 - Y beirniadaethau y gellir apelio yn eu herbyn

Y dull adolygu	Y beirniadaethau y gellir apelio yn eu herbyn
Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol (Adolygiad GorA, neu EOR yn Saesneg)	Bydd angen i'r darparwr gymryd camau i fodloni gofynion y Swyddfa Gartref o ran sicrhau ansawdd mewn perthynas â goruchwyliaeth addysgol (i'r darparwyr hynny a asesir yn erbyn yr Elfen Graidd). NEU Bydd angen i'r darparwr gymryd camau i gyfateb yn llawn â'r Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (i'r darparwyr hynny a asesir yn erbyn yr Elfen Lawn). NEU Nid yw'r darparwr yn bodloni gofynion y Swyddfa Gartref o ran sicrhau ansawdd mewn perthynas â goruchwyliaeth addysgol (i'r darparwyr hynny a asesir yn erbyn yr Elfen Graidd). NEU Nid yw'r darparwr yn cyfateb â'r Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU (i'r darparwyr hynny a asesir yn erbyn yr Elfen Lawn).
Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol - Adolygiad Rhannol	I'r darparwyr hynny a asesir yn erbyn yr Elfen Graidd: Nid yw'r darparwr yn bodloni gofynion y Swyddfa Gartref o ran sicrhau ansawdd mewn perthynas â goruchwyliaeth addysgol. I'r darparwyr hynny a asesir yn erbyn yr Elfen Lawn: Nid yw'r darparwr yn cyfateb â'r Egwyddorion y cytunwyd arnynt gan y sector sydd wedi eu nodi yng Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU.
Adolygiad Gwella Ansawdd Addysg Drydyddol (Adolygiad GAAD, neu TQER yn Saesneg)	Os rhoddir y beirniadaethau 'yn rhannol effeithiol' Os rhoddir y beirniadaethau 'ddim yn effeithiol'

Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru (Adolygiad APC, neu GQRW yn Saesneg)	Gellir teimlo hyder cyfyngedig bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU. Ni ellir teimlo hyder bod y safonau academiaidd yn ddibynadwy, yn bodloni gofynion y DU, ac yn cymharu'n rhesymol â'r safonau a osodir ac a gyflawnir gan ddarparwyr eraill yn y DU. Gellir teimlo hyder cyfyngedig bod ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol. Ni ellir teimlo hyder bod ansawdd profiad academiaidd y myfyrwyr yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol.
Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA, neu QER yn Saesneg)	Beirniadaethau 'anfoddhaol' yw'r rheiny sydd angen camau dilyniant i gwblhau'r adolygiad, sef: 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau' NEU 'wedi methu bodloni'r gofynion'. Mewn perthynas â beirniadaethau gwahaniaethol, fel y maent wedi eu diffinio yn y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad GA, dim ond yn erbyn eu helfennau negyddol y gellir apelio.
Achrediad Ansawdd Rhyngwladol / Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol	Nid yw eich sefydliad yn bodloni'r safonau.
Achrediad Rhaglen Rhyngwladol (Tachwedd 2023)	Nid yw eich sefydliad yn bodloni'r safonau.
Achrediad Rhaglen Rhyngwladol (Awst 2026)	Nid yw eich sefydliad yn bodloni'r meini prawf (adolygiad).

Atodiad 3 - Ffurflen Gyflwyno Apêl o dan Drefn Apelio Gyfunol QAA

Mae'n rhaid cyflwyno pob apêl ar y [Ffurflen Gyflwyno Apêl o dan y Drefn Apelio Gyfunol](#)³, gan gadw at y cyfyngiadau perthnasol ar nifer y geiriau.

- Adolygiad Ansawdd Porth: Cymru (Adolygiad APC) ac Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA): mae modd cyflwyno apêl yn Gymraeg neu Saesneg.

Cyhoeddwyd ym mis Medi 2026

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2026
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk

³ Mae'r Ffurflen Gyflwyno Apêl o dan y Drefn Apelio Gyfunol ar gael i'w lawrlwytho ar:
www.qaa.ac.uk/docs/qaa/guidance/ffurflen-gyflwyno-ap%C3%AAI-qaa.pdf